

**WLBP YN SICRHAU CYDNABYDDIAETH AR GYFER ADOLYGIAD IECHYD A LLES ANIFEILIAID
FAWL O DAN Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY**

Mae WLBP yn falch i gyhoeddi, yn dilyn trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Cymru, y cytunwyd i gydnabod Adolygiad Blyneddol Iechyd a Lles Da Byw sydd yn rhan o gynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL) yn erbyn gofynion y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC). Mae hyn lleihau dyblygu gwaith ar gyfer aelodau FAWL.

*Mae'r **Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)** yn un o ofynion Cam Gweithredu Cyffredinol 12 y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)*

Mae hyn yn ddatblygiad pwysig i aelodau FAWL sydd wedi ymuno â'r SFS. Mae'n cydnabod y gall yr Adolygiad Iechyd a Lles Anifeiliaid, a gynhelir gyda'r milfeddyg, gyflawni gofynion cyfatebol yr AHIC sydd yn cynnwys iechyd, lles a gwellhad parhaus anifeiliaid.

Beth mae hyn yn ei olygu i aelodau FAWL yn 2026?

Ni fydd angen i ffermwyr sy'n aelodau o gynllun Gwarant Fferm Da Byw (FAWL) gwblhau gofynion 'Mesur' a 'Cynllunio' Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) ar wahân ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) 2026. Er mwyn elwa ar y gydnabyddiaeth hon, **sicrhewch eich bod yn clicio** "Rwy'n aelod o Gynllun Gwarant Fferm" ar eich Dangosfwrdd RPW.

Fodd bynnag, rhaid i ffermwyr gwblhau pob agwedd arall o'r Cam Gweithredu Cyffredinol 12 (UA12), gan gynnwys:

- asesiad Bioddiogelwch Anifeiliaid sy'n dod i'r fferm (BAIS) gyda'r milfeddyg
- gofynion sgiliau a sgorio lles anifeiliaid perthnasol.

Mae hyn yn **fudd ymarferol pwysig i aelodau**, lle mae cynllun gwarant fferm sydd wedi'i achredu'n annibynnol eisoes yn cyflawni canlyniadau cyfatebol, dylai ffermwyr gael cydnabyddiaeth am y gwaith y maent eisoes yn ei wneud. Os ydych wedi ysgwyddo costau mewn cysylltiad â'r AHIC eisoes ond a fyddai wedi bodloni'r gofynion newydd heb ysgwyddo'r costau hynny, gallwch gysylltu â'r RPW trwy'r ffurflen ymholiadau ar-lein a rhoi manylion y costau a ysgwyddwyd i weld a oes gennych hawl i iawndal.

Angen eglurhad pellach?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu angen eglurhad pellach, cysylltwch â thîm WLBP.

E-bost: info@wlbpcy.co.uk Ffôn: 01970 636 688

Cliciwch i ddarllen mwy am hyn: <https://www.llyw.cymru/trefniadau-newydd-ynlleihau-dyblygu-ar-gyfer-ffermwyr-y-cynllun-ffermio-cynaliadwy>